# Dogfen ir Cyhoedd

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

Mr Richard Parry Jones, BA, MA.
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cygnor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | | NOTICE OF MEETING |
|---|---|---|
| PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD | | DEMOCRATIC SERVICES COMMITTEE |
| DYDD MERCHER, 25 MAWRTH 2015 am 2.00 o'r gloch | | WEDNESDAY, 25 MARCH 2015 at 2.00 pm |
| YSTAFELL BWYLLGOR 1 SWYDDFEYDD Y CYNGOR LLANGEFNI | | COMMITTEE ROOM 1 COUNCIL OFFICES LLANGEFNI |
| Swyddog Pwyllgor | Shirley Cooke 01248 752514 | Committee Officer |

**AELODAU / MEMBERS**
Cynghorwyr / Councillors:-

**Annibynnol / Independent**

D R Hughes, Victor Hughes, Richard Owain Jones a Dafydd Rhys Thomas

**Plaid Cymru / The Party of Wales**

Vaughan Hughes (Cadeirydd/Chair), Cynghorydd R.Meirion Jones, R G Parry OBE a Dylan Rees

**Plaid Lafur Cymru / Wales Labour Party**

J A Roberts

**Grŵp Chwyldroad / Revolutionist Group**

Sedd wag / Vacant seat

# A G E N D A

1 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog yng nghyswllt unrhyw eitem o fusnes.

2 **COFNODION** (Tudalennau 1 - 4)

Cyflwyno i'w cadarnhau, cofnodion y cyfarfod o'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a gynhaliwyd ar 29 Ionawr, 2015.

3 **PANEL ANNIBYNNOL AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL - ADRODDIAD BLYNYDDOL AR GYFER 2015/16** (Tudalennau 5 - 12)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd Dros Dro.

4 **CYFARFOD BLYNYDDOL AELODAU** (Tudalennau 13 - 14)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd Dros Dro.

5 **GWE-DDARLLEDU CYFARFODYDD** (Tudalennau 15 - 16)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd Dros Dro.

6 **CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD** (Tudalennau 17 - 18)

Ystyried mabwysiadu'r isod:-

*"Dan Adran 100 (A)(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn, oherwydd y posibilrwydd y caiff gwybodaeth eithriedig ei rhyddhau fel y diffinnir hi yn Atodlen 12A y Ddeddf a'r Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm".*

7 **PENODI PENNAETH Y GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD** (Tudalennau 19 - 46)

- I ystyried y dyfyniad a ganlyn o gofnodion y Pwyllgor Penodiadau a gynhaliwyd ar 27 Ionawr, 2015.

- Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro fel a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Penodiadau ar 27 Ionawr, 2015.

# PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 29 Ionawr, 2015

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Y Cynghorydd Vaughan Hughes (Cadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Derlwyn Hughes, Victor Hughes, Richard O Jones, R G Parry, OBE, Dafydd Rhys Thomas |
| **WRTH LAW:** | Pennaeth Dros Dro y Gwasanaethau Democrataidd<br>Swyddog Pwyllgor (SC) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorwyr R Meirion Jones, Dylan Rees, J Arwel Roberts<br>Richard Dew (Aelod Portffolio) |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorwyr Kenneth P Hughes, Alwyn Rowlands (Aelodau Portffolio) |

---

**1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Ni chafwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

**2 COFNODION**

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 2 Rhagfyr 2014 fel rhai cywir ar yr amod fod enw'r Cynghorydd R O Jones yn cael ei gynnwys ar restr yr Aelodau a oedd yn bresennol.

**3 YMGYNGHORI AR GYLLIDEB 2015/16**

Rhoddwyd sylw i adroddiad a baratowyd gan Bennaeth Dros Dro y Gwasanaethau Democrataidd yn cyfeirio at yr Ymgynghoriad ar y Gyllideb a'r Cynigion Drafft ar gyfer Cyllideb 2015/16.

Cyfeiriwyd yn benodol at adroddiad a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ar 15 Rhagfyr, 2014, a'r cynigion ynghylch arbedion effeithlonrwydd ar gyfer y Gwasanaethau Democrataidd y manylwyd arnynt yn Atodiad B. Roedd yr arbedion yn y Gwasanaethau Democrataidd yn ymwneud â gostwng costau argraffu a phostio yn dilyn rhoi i-pads i'r Aelodau a'r arbedion a wnaed yn sgil hynny.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r arbedion a gynigiwyd.**

**4 ADRODDIADAU BLYNYDDOL YR AELODAU**

Cyflwynwyd - adroddiad gan Bennaeth Dros Dro y Gwasanaethau Democrataidd mewn perthynas ag Adroddiadau Blynyddol yr Aelodau ar gyfer 2014/15.

Cyfeiria’r adroddiad at adolygiad o’r Adroddiadau Blynyddol a baratowyd gan yr Aelodau gan y Gweinidog ar gyfer Gwasanaethau Cyhoeddus lle nodir darlun cymysg o ran nifer yr adroddiadau blynyddol a gyhoeddwyd ar gyfer 2013/14 ac yn nodi mai dim ond Ynys Môn ac un Awdurdod arall oedd wedi cyhoeddi Adroddiadau Blynyddol ar gyfer y cyfan o’u Haelodau.

Gofynnodd Pennaeth Dros Dro y Gwasanaethau Democrataidd i’r Aelodau baratoi eu hail adroddiad blynyddol ar gyfer 2014/15 a rhoddwyd i’r Aelodau fersiwn symlach o’r templed. Dywedodd y byddai’r swyddogion yn casglu ynghyd y wybodaeth ystadegol ynghylch presenoldeb ym mhrif bwyllgorau ac is-bwyllgorau’r Cyngor. Byddai’r templed yn cael ei gylchredeg i Aelodau yn ystod mis Mawrth a gofynnir i’r Aelodau gyflwyno adroddiadau drafft erbyn 10 Ebrill, 2015 ac y bydd adroddiadau terfynol yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor tua diwedd mis Mehefin.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at bresenoldeb mewn cyfarfodydd a’r anhawster a gaiff rhai Aelodau i fynychu oherwydd amgylchiadau personol. Cytunwyd y byddai Pennaeth Dros Dro y Gwasanaethau Democrataidd yn paratoi troed-nodyn a’r dempled yr adroddiad yn datgan fod presenoldeb Aelodau mewn cyfarfodydd yn dibynnu ar eu hymrwymiadau gwaith.

Cynigiodd Pennaeth Dros Dro y Gwasanaethau Democrataidd y bydd cyfarfodydd yn y dyfodol yn cael eu cynnal ar ddydd Llun, dydd Mawrth a dydd Mercher pryd bynnag y mae hynny’n bosibl ac roedd yr Aelodau’n croesawu hynny fel ffordd ymlaen. Byddai cynigion ynghylch amserlen Pwyllgorau  2015/16 yn cael eu cyflwyno i’r Cyngor ym mis Chwefror 2015.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.**

**5 CYMDEITHAS LLYWODRAETH LEOL CYMRU – DATBLYGIAD PROFFESIYNOL PARHAUS I GYNGHORWYR: 2015**

Dywedodd Pennaeth Dros Dro y Gwasanaethau Democrataidd fod CLlLC wedi paratoi canllawiau ar fframwaith cymhwysedd drafft i gefnogi Aelodau yn eu gwaith. Mae’r fframwaith yn disgrifio’r sgiliau a’r wybodaeth sydd eu hangen ar Aelodau etholedig ynghyd â’u cyfrifoldebau a bwriedir iddynt ei ddefnyddio pan yn ystyried eu hanghenion o ran datblygiad proffesiynol neu wrth adolygu eu perfformiad.

Dywedodd Pennaeth Dros Dro y Gwasanaethau Democrataidd fod CLlLC wedi gofyn am atborth gan yr Aelodau ar y fframwaith cymhwysedd drafft a chyfeiriodd at yr atodiad i’r adroddiad sy’n cyfeirio at y cymwyseddau generig sydd eu hangen ar gyfer rôl Aelodau; agweddau Aelodau tuag at arweinyddiaeth; swyddogaeth pwyllgorau sgriwtini ac ati.

Dywedodd Pennaeth Dros Dro y Gwasanaethau Democrataidd y bydd gan yr Aelodau’r cyfle i gyflwyno sylwadau ar y fframwaith drafft ac i’w ddiwygio erbyn 4 Mawrth,  2015. Cafwyd gwybodaeth gefndirol yn y fframwaith i gynorthwyo’r Aelodau’r gyda’r broses o baratoi Adolygiadau Datblygiad Personol sy’n mynd

rhagddi ar hyn o bryd gyda hynny'n darparu gwybodaeth ar gyfer y cynllun anghenion hyfforddiant am 2015/16.

**PENDERFYNWYD derbyn y fframwaith cymhwysedd a baratowyd gan CLlLC.**

Ar ddiwedd y cyfarfod, dywedodd y Cadeirydd fod Sarah Titcombe o CLlLC wedi bod mewn damwain car yn ddiweddar. Roedd aelodau'r Pwyllgor yn dymuno mynegi iddi eu dymuniadau gorau am adferiad iechyd llwyr a buan.

Daeth y cyfarfod i ben am 2.45 pm

**Y CYNGHORYDD VAUGHAN HUGHES**
**CADEIRYDD**

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Cyfarfod:** | **Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd** |
| **Dyddiad:** | **25 Mawrth 2015** |
| **Teitl yr adroddiad:** | **Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol – Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2015/16** |
| **Adroddiad gan:** | **Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd dros dro** |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | **Rhoi gwybod i'r Pwyllgor am benderfyniadau a waned gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol mewn perthynas â chefnogi aelodau.** |

## 1.0 Cefndir

1.1 Mae Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (y Panel) yn annibynnol ar lywodraeth ganolog a lleol ac fe'i sefydlwyd yn y lle cyntaf i benderfynu ystod a lefelau lwfansau sy'n daladwy i gynghorwyr cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol ac i aelodau cyfetholedig â hawliau pleidleisio. Bob blwyddyn, mae'n rhaid i'r Panel lunio Adroddiad Blynyddol sy'n nodi'r math a'r lefelau o daliadau y mae awdurdodau'n gallu neu'n gorfod eu gwneud i'w haelodau ac i aelodau cyfetholedig.

1.2 Mae'r Panel yn mynnu bod pob awdurdod lleol yn cyhoeddi Rhestr Cydnabyddiaeth Ariannol Aelodau erbyn 31 Gorffennaf bob blwyddyn. Pwrpas y Rhestr yw sicrhau didwylledd a thryloywder ar draws yr holl awdurdodau ynghylch taliadau a wneir i aelodau etholedig. Bu i'r Cyngor hwn gwrdd yn llawn â gofynion y Panel mewn perthynas a'r flwyddyn ddinesig 2014/15.

1.3 Bwriedir cyflwyno adroddiad i'r Cyngor llawn ar 14 Mai 2015 ar y taliadau i aelodau ac aelodau cyfetholedig ar gyfer 2015/16, yn unol â gofynion y Panel yn ei adroddiad blynyddol (Chwefror 2015). Ceir crynodeb o hyn yn **Atodiad 1.** Mewn perthynas â chyflogau dinesig, mae gan y Cyngor ddisgresiwn i osod taliadau o fewn cyfyngiadau penodedig. Bwriedir trafod yr elfen yma gydag arweinyddion grwpiau cyn cyfarfod y Cyngor.

1.4 Mae'r adroddiad yma'n canolbwyntio ar ddisgwyliadau'r Panel mewn perthynas â chynorthwyo gwaith aelodau etholedig awdurdod lleol.

## 2.0 Cynorthwyo Gwaith Aelodau Etholedig Awdurdod Lleol

2.1 Yn ei Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2014/15 (a gyhoeddwyd Chwefror 2014), nododd y Panel gyda phryder yr amrywiadau eang a'r anghysondeb yn y cymorth a ddarperir i aelodau i'w galluogi i gyflawni eu swyddogaethau'n effeithiol. Fe benderfynodd y Panel:

- er mwyn sicrhau cysondeb, dylid darparu cymorth o'r fath heb gostau i'r aelod etholedig unigol

- rhaid i gostau cymorth fod yn briodol, yn rhesymol a chael eu datgan yn gyhoeddus

- ni ellir gwneud didyniadau o gyflogau aelodau gan yr awdurdod priodol fel cyfraniad at y costau cymorth hynny y mae'r awdurdod yn eu hystyried yn angenrheidiol ar gyfer effeithlonrwydd a/neu effeithiolrwydd aelodau.

2.2 Yn ei adroddiad ar gyfer 2015/16 (a gyhoeddwyd Chwefror 2015), mae'r Panel yn nodi bod y mater yn parhau i beri pryder. Nodir bod swyddogaethau Pwyllgorau Gwasanaethau Democrataidd yn cynnwys gofyniad i adolygu lefel y cymorth a roddir i aelodau i gyflawni eu dyletswyddau a byddai'r Panel yn disgwyl i'r pwyllgorau hyn wneud hynny a chyflwyno cynigion i'r cyngor llawn ynghylch yr hyn a ystyrir yn rhesymol.

2.3. Mae'r Panel wedi penderfynu:

- y dylai pob awdurdod sicrhau, drwy ei Bwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, bod ei holl aelodau'n cael cymaint o gymorth ag sydd angen i'w galluogi i gyflawni eu dyletswyddau'n effeithiol. Dylid darparu cyfleusterau ffôn ac e-bost digonol i bob aelod etholedig, a mynediad electronig at wybodaeth briodol.

- y dylid darparu cymorth o'r fath heb gostau i'r aelod unigol. Ni ellir gwneud didyniadau o gyflogau aelodau gan yr awdurdod priodol fel cyfraniad at y costau cymorth y mae'r awdurdod wedi eu penderfynu'n angenrheidiol ar gyfer effeithlonrwydd a/neu effeithiolrwydd aelodau.

2.4 Awgrymir y dylid cysylltu â'r aelodau i ganfod os ydynt o'r farn bod y cymorth a ddarperir iddynt yn ddigonol i'w galluogi i gyflawni eu dyletswyddau'n effeithiol. Byddai hyn yn caniatau i'r Pwyllgor ystyried yr ymatebion fel rhan o'i raglen waith ar gyfer 2015/16 ac adrodd yn ôl i'r Cyngor llawn.

**3.0 Argymhelliad**

Gofynnir i'r Pwyllgor:

3.1 nodi'r penderfyniadau a wnaed gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol mewn perthynas â chefnogi aelodau;

3.2 awdurdodi'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd dros dro i ofyn am farn yr aelodau os yw'r cymorth y maent yn ei gael yn ddigonol i'w galluogi i gyflawni eu dyletswyddau'n effeithiol.

**Huw Jones**
**Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd dros dro**
**17/03/15**

Papur cefndirol:- Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (Chwefror 2015) – tudalen 17 - http://gov.wales/irpwsub/home/publication/2015-16/annual-report-2015-16/?skip=1&lang=cy

# Taliadau i Aelodau ar gyfer 2015/16 yn unol â gofynion Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (Chwefror 2015)

## 1.0 Taliadau i aelodau etholedig prif gynghorau

### Cyflog sylfaenol

1.1 Mae'r Panel wedi penderfynu na fydd unrhyw gynnydd yn lefel y cyflog sylfaenol i aelodau'r prif gynghorau. Bydd y cyflog sylfaenol yn 2015/16 ar gyfer aelodau etholedig y prif gynghorau felly'n aros yn **£13,300.**

### Uwch gyflogau

1.2 Mae gan y Cyngor ddisgresiwn ynghylch nifer yr uwch gyflogau y mae'n eu talu, hyd at yr uchafswm a bennwyd gan y Panel. Y nifer uchaf o uwch gyflogau y gellir eu talu yn Ynys Môn am 2015/16 yw 15 ac mae'r ffigwr hwn yn dal i gynnwys cyflogau dinesig. Ar gyfer 2014/15 penderfynodd y Cyngor ddyrannu uwch gyflogau i 14 o Aelodau a oedd yn dal swyddi.

1.3 Rhaid i gyngor sicrhau bod uwch gyflog ar gael i arweinydd y grŵp gwrthbleidiol mwyaf. Mae'r amod bod rhaid i arweinydd grŵp gwrthbleidiol neu unrhyw arweinydd grŵp arall gynrychioli o leiaf 10% o aelodaeth y cyngor cyn cymhwyso am uwch gyflog yn aros yr un fath.

1.4 Mae'r Panel wedi penderfynu y bydd lefelau uwch gyflog 2015/16 ar gyfer aelodau prif gynghorau'n parhau fel y nodir isod:

| **Uwch Gyflogau (sy'n cynnwys y cyflog sylfaenol):** | | |
|---|---|---|
| **Band 1** | Arweinydd<br>Dirprwy Arweinydd | **£43,000**<br>**£30,000** |
| **Band 2** | Aelodau eraill o'r Pwyllgor Gwaith | **£26,000** |
| **Band 3** | Cadeiryddion Pwyllgor (os y'u telir) | **£22,000** |
| **Band 4** | Arweinydd y grwp gwrthbleidiol mwyaf* | **£22,000** |
| **Band 5** | Arweinydd grwp gwrchbleidiol arall* | **£17,000** |

### Penaethiaid dinesig a dirprwy benaethiaid dinesig

1.5 Mae'r Panel yn parhau o'r farn ei bod yn briodol i awdurdodau bennu lefelau talu sy'n adlewyrchu gweithgarwch a chyfrifoldeb yn hytrach na phoblogaeth. Gall cyngor benderfynu peidio â rhoi cyflog dinesig i swyddi pennaeth dinesig a/neu ddirprwy bennaeth dinesig.

1.6 Mae gan y Cyngor felly ddisgresiwn i dalu cyflog dinesig (sy'n cynwys y cyflog sylfaenol) yn unol â'r lefelau taliadau canlynol a benderfynwyd gan y Panel:

| **Cyflogau Dinesig (sy'n cynnwys y cyflog sylfaenol):** | |
|---|---|
| Pennaeth Dinesig (Cadeirydd y Cyngor) | **A - £24,000**<br>**B - £21,500**<br>**C - £19,000** |
| Dirprwy Bennaeth Dinesig (Dirprwy Gadeirydd y Cyngor) | **A - £18,000**<br>**B - £16,000**<br>**C - £14,000** |

1.7 In 2014/15, derbyniodd y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd gyflogau o £19,000 a £14,000 yn ôl eu trefn, gan gynnwys y cyflog sylfaenol.

**Taliadau I aelodau llywyddol**

1.8 Mae Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 yn galluogi cynghorau i benodi rhywun i swydd ychwanegol, sef aelod llywyddol sy'n gyfrifol am gadeirio cyfarfodydd y cyngor cyfan. Lle penodir un, bydd gan y pennaeth dinesig lai o gyfrifoldebau o ganlyniad i hynny. Mae'r Panel wedi penderfynu y bydd yn rhaid i aelod llywyddol, os penodwyd un ac os yw'n cael cydnabyddiaeth ariannol, gael ei dalu ar lefel uwch gyflog Band 3, sef £22,000, y bydd y swydd hon yn cyfrif tuag at y cap ac na fydd swydd dirprwy aelod llywyddol yn derbyn cydnabyddiaeth ariannol.

1.9 Penderfynodd y Cyngor ar 27 Chwefror 2014 beidio symud ymlaen gyda hyn.

**Y ffactorau allweddol sy'n sail i benderfyniadau'r Panel**

1.10 Y cyflog sylfaenol, a delir i bob aelod, yw'r gydnabyddiaeth ariannol am y cyfrifoldeb o gynrychiolaeth gymunedol a chymryd rhan yn y gwaith o graffu, rheoleiddio neu swyddogaethau cysylltiedig llywodraethu lleol am gyfnod sy'n gyfwerth â thri diwrnod yr wythnos. Mae unrhyw ymrwymiad amser y tu hwnt i dri diwrnod yn gyfraniad gwasanaeth cyhoeddus di-dâl.

1.11 Mae cydnabyddiaeth ariannol arweinwyr cyngor ac aelodau'r pwyllgor gwaith (uwch gyflogau Band 1 a Band 2) yn seiliedig ar ragdybiaeth y Panel fod y swyddogaethau'n cyfateb i rai llawn amser.

1.12 Mae'n rhaid talu'r cyflog a'r costau sydd wedi'u pennu yn llawn i bob aelod, ac eithrio bod unigolyn wedi dewis yn annibynnol a gwirfoddol yn ysgrifenedig i swyddog priodol yr awdurdod i ildio'r holl daliad neu unrhyw elfen ohono.

Rhaid gweithredu'r canlynol:

1.13 Ni all aelod etholedig gael cydnabyddiaeth ariannol am fwy nag un swydd uwch o fewn ei awdurdod ef neu hi.

1.14 Ni ellir talu uwch gyflog a chyflog dinesig i aelod etholedig.

1.15 Mae'r cyflog sylfaenol yn gynwysedig ym mhob uwch gyflog a chyflog dinesig a delir.

1.16 Os yw cyngor yn dewis cael mwy nag un dirprwy arweinydd sy'n derbyn cydnabyddiaeth ariannol, dylid rhannu'r gwahaniaeth rhwng uwch gyflog y dirprwy arweinydd ac aelodau gweithredol eraill gyda nifer y dirprwy arweinwyr a'i ychwanegu at uwch gyflog aelodau gweithredol eraill er mwyn cyfrifo'r uwch gyflog sy'n daladwy i bob dirprwy arweinydd.

1.17 Ni all aelodau sy'n derbyn uwch gyflog Band 1 neu Fand 2 dderbyn cyflog gan unrhyw Awdurdod Parc Cenedlaethol neu Awdurdod Tân ac Achub y maent wedi'u penodi ar eu cyfer.

**Uwch gyflogau penodol neu ychwanegol**

1.18 Er mwyn galluogi hyblygrwydd ar lefel leol, cyflwynodd y Panel yn ei adroddiad a gyhoeddwyd Chwefror 2014 gyfle i awdurdodau wneud cais am gyflogau uwch penodol neu ychwanegol y tu allan i'r fframwaith cydnabyddiaeth ariannol. Mae'r Panel wedi nodi mai dim ond un cais a dderbyniwyd hyd yma.

**Dyrannu uwch gyflogau ar gyfer 2015/16**

1.19 Bwriedir gofyn i'r Cyngor yn ei gyfarfod ar 14 Mai 2015 gadarnhau'r nifer o aelodau a ddylid derbyn uwch gyflog yn ystod 2015/16.

## 2.0 Cynorthwyo gwaith aelodau etholedig awdurdod lleol

2.1 Mae'r Panel yn parhau i bryderu am yr amrywiadau eang a'r anghysondeb yn y cymorth a ddarperir i aelodau. Mae swyddogaethau Pwyllgorau'r Gwasanaethau Democrataidd yn cynnwys gofyniad i adolygu lefel y cymorth a roddir i aelodau i gyflawni eu dyletswyddau ac mae'r Panel yn disgwyl i'r pwyllgorau hyn wneud hynny a chyflwyno cynigion i'r cyngor llawn ynghylch yr hyn a ystyrir yn rhesymol.

## 3.0 Taliadau i aelodau cyfetholedig prif gynghorau

Amlinellir isod y penderfyniadau ar gyfer 2015/16:

| **Rhaid i Awdurdodau Lleol dalu'r ffioedd isod i Aelodau Cyfetholedig (sydd â hawliau pleidleisio):** | |
|---|---|
| Cadeiryddion Pwyllgorau Safonau a Phwyllgorau Archwilio | £256 (4 awr a throsodd)<br>£128 (hyd at 4 awr) |
| Aelodau cyffredin o Bwyllgorau Safonau sydd hefyd yn Cadeirio Pwyllgorau Safonau ar gyfer Cynghorau Tref a Chymuned | £226 – ffi ddyddiol<br>(4 awr a throsodd)<br>£113 (hyd at 4 awr) |
| Aelodau cyffredin o Bwyllgorau Safonau, Pwyllgor Sgriwtini Addysg; Pwyllgor Sgriwtini Trosedd ac Anhrefn a'r Pwyllgor Archwilio. | £198 (4 awr a throsodd)<br>£99 (hyd at 4 awr) |

3.1 Mae amser rhesymol i baratoi cyn cyfarfodydd yn gymwys i'w gynnwys mewn hawliadau a wneir gan aelodau cyfetholedig – gall swyddog priodol benderfynu faint cyn y cyfarfod.

3.2 Gellir cynnwys amser teithio i'r cyfarfod ac oddi yno yn yr hawliadau am daliadau a wneir gan aelodau cyfetholedig (hyd at uchafswm y gyfradd ddyddiol).

3.3 Gall y swyddog priodol yn yr awdurdod bennu ymlaen llaw a yw cyfarfod wedi'i drefnu ar gyfer diwrnod llawn a thelir ffi ar sail y penderfyniad hwn, hyd yn oed os yw'r cyfarfod yn gorffen cyn diwedd pedair awr.

3.4 Mae cyfarfodydd sy'n gymwys am daliad ffi yn cynnwys pwyllgorau a gweithgorau eraill (gan gynnwys grwpiau gorchwyl a gorffen), cyfarfodydd rhagarweiniol gyda swyddogion, hyfforddiant a phresenoldeb mewn cynadleddau neu unrhyw gyfarfod ffurfiol arall y mae gofyn i aelodau cyfetholedig eu mynychu.

3.5 Gallai Awdurdodau benderfynu ar nifer mwyaf y dyddiau mewn unrhyw un flwyddyn y gallai aelodau cyfetholedig gael eu talu amdanynt.

## 4.0 Taliadau a lwfansau eraill

Mae gweddill y papur hwn yn manylu ar daliadau a lwfansau eraill sydd yn daladwy fel y pennwyd gan y Panel.

**Ad-dalu costau teithio**

4.1 Mae'r Panel wedi penderfynu na fydd unrhyw newid yn 2015/16 i'r cyfraddau milltiredd y mae gan aelodau hawl i'w hawlio. Dim ond ad-dalu costau teithio i'w aelodau am gyflawni busnes swyddogol y gall pob awdurdod ei wneud, ar gyfraddau cyfredol Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi sef:

- 45p y filltir – hyd at 10,000 milltir y flwyddyn mewn car
- 25p y filltir – dros 10,000 milltir y flwyddyn mewn car
- 5p y teithiwr y filltir – tâl ychwanegol am deithiwr arall
- 24p y filltir – beiciau modur
- 20p y filltir – beiciau

4.2 Dylai awdurdodau dalu'r cyfraddau milltiroedd a ragnodir i aelod sydd wedi bod yn deithiwr mewn cerbyd sy'n cael ei yrru gan rywun arall cyn belled ag y bo'r awdurdod yn fodlon fod cost wedi'i gwario gan yr aelod.

4.3 Mae'r Panel yn nodi bod Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi yn Natganiad yr Hydref 2014 bydd costau teithio a delir i gynghorwyr gan eu hawdurdod lleol yn cael eu heithrio rhag treth incwm a chyfraniadau Yswiriant Gwladol gweithwyr. Bydd yr eithriad yn gyfyngedig i'r Taliadau Lwfans Milltiredd Cymeradwy lle mae'n berthnasol i daliadau milltiredd. Bydd y newid hwn yn dod i rym o 6 Ebrill, 2015

**Ad-dalu costau cynhaliaeth**

4.4 Mae ad-daliadau costau cynhaliaeth ar gyfer aelodau ac aelodau etholedig yn seiliedig ar y cyfraddau uchaf a nodir isod a bennwyd gan y Panel a hynny ar sail hawliadau gyda derbynebau, ac eithrio ar achlysuron lle mae aelodau'n aros gyda ffrindiau a/neu deulu:

- £28 y diwrnod – Lwfans dydd am brydau, gan gynnwys brecwast, lle nad oedd
- wedi'i gynnwys yn y taliad dros nos
- £150 y noson - Llundain
- £95 y noson – rhywle arall
- £25 y noson – aros dros nos gyda ffrindiau a/neu deulu

**Ad-dalu costau gofal**

4.5 Mae'r Panel wedi penderfynu bod rhaid i bob awdurdod ddarparu ar gyfer ad-dalu costau angenrheidiol i ofalu am blant ac oedolion dibynnol (a ddarperir gan ofalwyr anffurfiol neu ffurfiol) hyd at uchafswm o £403 y mis. Dim ond pan fydd y gofalwr yn dangos derbynebau y gwneir ad-daliadau.

4.6 Bwriad ad-dalu costau lwfans gofal yw galluogi unrhyw unigolyn y byddai ei allu i gymryd rhan fel aelod o awdurdod yn cael ei gyfyngu gan ei gyfrifoldebau fel gofalwr. Mae'r Panel yn cydnabod bod rhywfaint o sensitifrwydd yn ymwneud â chyhoeddi'r costau dilys hyn. Fodd bynnag, mae'r Panel yn cymell awdurdodau i annog mwy o bobl i fanteisio ar y cymorth hwn er mwyn hwyluso amrywiaeth gynyddol ymysg aelodau awdurdodau.

4.7 Byddai darpariaeth o'r fath yn berthnasol iawn i'r unigolion hynny mewn sectorau o'r boblogaeth sy'n cael eu tangynrychioli mewn llywodraeth leol ar hyn o bryd, ond a allai ymgysylltu pan fydd ymwybyddiaeth ehangach o'r cymorth sydd ar gael ar gyfer costau gofal.

**Cydnabyddiaeth Ariannol ar gyfer Absenoldeb Teuluol**

4.8 Ym mis Tachwedd 2013, cymeradwyodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru'r rheoliadau oedd yn ymdrin ag Absenoldeb Teuluol ar gyfer aelodau etholedig prif awdurdodau yng Nghymru. Cyhoeddodd y Panel Adroddiad Atodol ym mis Mawrth 2014. Mae'r penderfyniadau sydd yn yr Adroddiad Atodol yn cael eu cyfuno yn Adroddiad Blynyddol Chwefror 2015 ac fe'u nodir isod:

- Mae gan aelod hawl i gadw cyflog sylfaenol pan fydd yn cymryd Absenoldeb Teuluol o dan y rheoliadau, beth bynnag yw'r cofnod presenoldeb yn syth cyn cychwyn yr Absenoldeb Teuluol.

- Pan fydd uwch ddeilydd cyflog yn gymwys i gael Absenoldeb Teuluol, bydd yn gallu parhau i dderbyn y cyflog drwy gydol yr absenoldeb.

- Mater i'r awdurdod yw penderfynu penodi dirprwy ai peidio. Bydd yr aelod sy'n dirprwyo ar ran uwch ddeiliad cyflog sy'n cymryd Absenoldeb Teuluol yn gymwys i gael cyflog uwch os yw'r awdurdod yn penderfynu hynny.

- Os yw talu i'r dirprwy yn golygu bod yr awdurdod yn talu mwy na'r uchafswm o uwch gyflogau sy'n ymwneud ag o, fel y nodir yn Adroddiad Blynyddol y Panel, caniateir ychwanegiad i'r uchafswm tra bydd y dirprwy yn y swydd. Fodd bynnag, ni all y Cyngor hwn wneud hyn pe byddai'n golygu bod nifer yr uwch gyflogau yn fwy na hanner cant y cant o aelodaeth y Cyngor. Byddai angen cymeradwyaeth benodol gan Weinidogion Cymru yn yr achos hynny.

- Pan fydd awdurdod yn cytuno ar ddirprwy ar gyfer Absenoldeb Teuluol, rhaid hysbysu'r Panel o'r manylion o fewn 14 diwrnod o ddyddiad y penderfyniad. Mae hyn yn cynnwys manylion y swydd benodol ac am ba hyd y penodwyd y dirprwy.

- Rhaid diwygio'r atodlen cydnabyddiaeth ariannol er mwyn adlewyrchu goblygiadau'r Absenoldeb Teuluol.

**Darpariaeth pensiwn**

4.9 Mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn rhoi pŵer i'r Panel wneud penderfyniadau am hawliau pensiwn ar gyfer aelodau etholedig prif gynghorau.

4.10 Mae'r Panel wedi penderfynu y bydd yr hawl i ymuno â Chynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn gymwys i holl aelodau etholedig cymwys prif gynghorau.

Mawrth 2015

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| Pwyllgor: | Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd |
| Dyddiad y cyfarfod: | 25 Mawrth 2015 |
| Teitl: | Adroddiadau Blynyddol gan Aelodau |
| Awdur: | Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd dros Dro |
| Pwrpas yr Adroddiad: | Rhoi gwybod i'r Pwyllgor am sylwadau a wnaed gan Bwyllgor Safonau'r Cyngor mewn perthynas â chynnwys Adroddiadau Blynyddol gan Aelodau. |

## 1.0 Cefndir

1.1 Rwyf wedi adrodd yn y gorffennol i'r Pwyllgor hwn mewn perthynas ag Adran 5 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 sy'n rhoi dyletswydd ar y Cyngor Sir i sicrhau bod trefniadau wedi eu gosod i Aelodau gyflwyno adroddiad blynyddol ar eu gweithgareddau.

1.2 Fe gyflwynais adroddiad ar gynnydd i'r cyfarfod diwethaf o'r Pwyllgor hwn yn gofyn am sylwadau'r Pwyllgor ar y trefniadau arfaethedig ar gyfer paratoi Adroddiadau Blynyddol Aelodau ar gyfer 2014/15.

## 2.0 Sylwadau a wnaed gan Bwyllgor Safonau'r Cyngor

2.1 Fe gyflwynwyd adroddiad i gyfarfod o'r Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 12 Mawrth 2015 ar adolygiad o gofrestrau'r Cyngor. Cyfeiriwyd yn benodol at adroddiadau blynyddol gan aelodau, gan nodi bod yna anghysondeb rhwng y wybodaeth a gyhoeddir yn yr adroddiadau blynyddol a chofrestr sefydlog y Cyngor. Mae'r adroddiad yn argymell y dylid cynnwys dolen at dudalen 'datganiadau' pob aelod unigol yn yr adroddiadau blynyddol.

2.2 Nodwyd yn y cyfarfod bod cyfle yma hefyd i aelodau gynnwys gwybodaeth am eu presenoldeb mewn cyfarfodydd cyrff allanol.

## 3.0 Argymhelliad

3.1 Argymhellir y dylid cynnwys y wybodaeth isod yn yr adroddiadau blynyddol gan gynghorwyr:

- dolen at dudalen 'datganiadau' pob aelod unigol

- y dylai pob adroddiad blynyddol restru'r cyrff allanol hynny sy'n berthnasol i'r aelod dan sylw, ynghyd â'r nifer o gyfarfodydd a drefnwyd a'r nifer o gyfarfodydd a fynychwyd – y wybodaeth yma i'w darparu gan yr aelodau unigol.

**Huw Jones**
**Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd dros dro** **18 Mawrth 2015**

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| ENW PWYLLGOR: | PWYLLGOR GWASANAETH DEMOCRATAIDD |
| DYDDIAD PWYLLGOR: | 25/03/2015 |
| TEITL: | GWE-DDARLLEDU CYFARFODYDD |
| ADRODDIAD GAN: | PENNAETH GWASANAETH DEMOCRATAIDD DROS DRO |

Mae'r adroddiad hwn yn diweddaru gwybodaeth ar we-ddarlledu cyfarfodydd yn dilyn adroddiad i'r Pwyllgor hwn ar y 2 Rhagfyr, 2014. Bydd Aelodau yn ymwybodol fod cyfarfodydd y Cyngor, Pwyllgor Gwaith a'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion yn rhan o'r peilot

**Ystadegau**

Ceir manylion yn Atodiad 1, ar y niferoedd sydd wedi dilyn cyfarfodydd rhwng Mehefin 2014 (cychwyn gwe ddarlledu) a Chwefror 2015.

Mae'r ystadegau dal yn ganolog i hyrwyddo gweithredu agored ac atebolrwydd a chyfranogiad ehangach yn nhrefniadau democrataidd y Cyngor. Defnyddiwyd cyfryngau cymdeithasol yn bennaf i hyrwyddo gwe-ddarlledu cyfarfodydd.

Yn ystod 2015/16 bydd angen i'r Pwyllgor,fel rhan o'i rhaglen waith ystyried opsiynau i'r dyfodol o safbwynt gweddarlledu cyfarfodydd yn wyneb y ffaith y bydd y cynllun peilot 2 flynedd a gyllidir gan Llywodraeth Cymru yn dod i ben yn Mawrth 2016. Mae'r Papur Gwyn ar ddiwygio Llywodraeth Leol , sy'n destun i ymgynghoriad ar hyn o bryd yn cynnwys argymhellion penodol o safbwynt gweddarlledu cyfarfodydd yn y dyfodol.

**Argymhelliad**

1) Fod y Pwyllgor yn nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad hwn a gofyn am ddiweddariad yn y Cyfarfod ym mis Gorffennaf 2015.

**Huw Jones**
**Pennaeth Gwasanaeth Democrataidd Dros Dro**
**16/03/2015**

**Atodiad 1**

**Cyngor Sir Ynys Môn**
Gweddarlledu Cyfarfodydd y Cyngor
Mehefin 2014 – Chwefror 2015

| **Rhif** | **Teitl** | **Dyddiad yn Fyw** | **Byw** | **Archif** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Pwyllgor Gwaith | Mehefin 9, 2014 | 161 | 2854 | 3015 |
| 2 | Pwyllgor Gwaith | Gorffennaf 14, 2014 | 64 | 1363 | 1427 |
| 3 | Cyngor Sir Ynys Môn | Gorffennaf 29, 2014 | 28 | 1061 | 1089 |
| 4 | Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion | Medi 3, 2014 | 32 | 1136 | 1168 |
| 5 | Pwyllgor Gwaith | Medi 8, 2014 | 32 | 888 | 920 |
| 6 | Cyngor Sir Ynys Môn | Medi 30, 2014 | 74 | 665 | 739 |
| 7 | Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion | Hydref 1, 2014 | 57 | 1086 | 1143 |
| 8 | Pwyllgor Gwaith | Hydref 20, 2014 | 25 | 398 | 423 |
| 9 | Pwyllgor Gwaith | Tachwedd 3, 2014 | 45 | 435 | 480 |
| 10 | Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion | Tachwedd 5, 2014 | 42 | 670 | 712 |
| 11 | Pwyllgor Gwaith | Rhagfyr 1, 2014 | 12 | 540 | 552 |
| 12 | Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion | Rhagfyr 3, 2014 | 32 | 521 | 553 |
| 13 | Cyngor Sir Ynys Môn | Rhagfyr 4, 2014 | 82 | 526 | 608 |
| 14 | Cyngor Sir Ynys Môn | Rhagfyr 4, 2014 | 48 | 429 | 477 |
| 15 | Pwyllgor Gwaith | Rhagfyr 15, 2014 | 29 | 466 | 495 |
| 16 | Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion | Ionawr 7, 2015 | 63 | 562 | 625 |
| 17 | Pwyllgor Gwaith | Ionawr 12, 2015 | 32 | 311 | 343 |
| 18 | Cyngor Sir Ynys Môn | Ionawr 20, 2015 | 2 | 161 | 163 |
| 19 | Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion | Chwefror 4, 2015 | 26 | 135 | 161 |
| 20 | Cyngor Sir Ynys Môn | Chwefror 4, 2015 | 3 | 188 | 191 |
| 21 | Pwyllgor Gwaith | Chwefror 9, 2015 | 21 | 128 | 149 |
| 22 | Pwyllgor Gwaith | Chwefror 16, 2015 | 22 | 132 | 154 |
| 23 | Cyngor Sir Ynys Môn | Chwefror 26, 2015 | 60 | 179 | 239 |
| | | | 992 | 14834 | 15826 |

# PRAWF BUDD Y CYHOEDD
# PUBLIC INTEREST TEST

**Penodi Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd / Appointment of the Head of Democratic Services**

<table>
<tr><td colspan="2">Paragraff(au) 12 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972<br>Paragraph(s) 12 Schedule 12A Local Government Act 1972</td></tr>
<tr><td colspan="2">Y PRAWF – THE TEST</td></tr>
<tr><td>Mae yna fudd i'r cyhoedd wrth ddatgelu oherwydd / The public interest in disclosing is:-<br><br>Tryloywder a sgriwtini mewn perthynas â defnydd teg a chyson o Bolisïau Adnoddau Dynol y Cyngor.<br><br>Transparency and scrutiny with regard to the fair and consistent application of the Council's HR Policies.</td><td>Y budd y cyhoedd with beidio datgelu yw / The public interest in not disclosing is:-<br><br>Ni ddylai'r Cyngor dorri ei ymrwymiadau statudol a chontractyddol i ddiogelu cyfrinachedd/preifatrwydd aelodau unigol o staff.<br><br>Gallai gwneud hyn heb gyfiawnhad cryf arwain at achos o gymryd camau gweithredu yn erbyn y Cyngor na fyddent er budd y cyhoedd.<br><br>The Council should not breach its statutory and contractual obligations to protect confidentiality/privacy of individual members of staff.<br><br>To do so without compelling justification could lead to a cause of action against the Council which would not be in the public interest.</td></tr>
<tr><td colspan="2">Argymhelliad - Mae'r budd i'r cyhoedd wrth gadw'r eithriad o bwys mwy na'r budd i'r cyhoedd wrth ddatgelu'r wybodaeth.<br>Recommendation - The public interest in maintaining the exemption outweighs the public interest in disclosing the information.</td></tr>
</table>

This page is intentionally left blank

Document is Restricted

This page is intentionally left blank

Document is Restricted

This page is intentionally left blank